


Sut y gall **blwch bach** newid Sir Gaerfyrddin?




Cymerodd **Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin** ran yn y balot Gwneud eich Marc sydd yn cael ei gynnal yn flynyddol. Tynnwyd ein sylw at sawl mater yn y sir.



Un o'r rhain oedd:
Tlodi Misglwyf

Yna Cychwynnwyd ar brosiect, dan arweiniad **Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin**, gyda chefnogaeth gan Adran Gwasanaeth Ieuenctid ac Addysg y Cyngor, o'r enw...

#PeriodPovertySirGâr



Y **nod** yw sicrhau nad yw merched yn **colli allan ar eu haddysg** oherwydd nad oes ganddynt amddiffyniad digonol yn ystod eu cyfnod ac i newid agweddau pobl tuag at y mislif fel nad yw bellach yn bwnc **tabŵ**.



Dywedodd Aelod o Fwrdd Gweithredol CYC, **Amber Treharne**, 15 oed o Borth Tywyn:



"Mae'n dorcalonnu clywed am straeon lle mae merched yn colli addysg oherwydd nad oes ganddynt ddigon o amddiffyniad tra ar eu cyfnod misglwyf, felly mae'n amlwg bod angen gwneud rhywbeth."
"Rwy'n gobeithio y bydd y prosiect hwn yn gwneud gwahaniaeth yn Sir Gaerfyrddin fel y gallwn ddod un cam yn nes at ddod â thlodi cyfnod i ben unwaith ac am byth."

Cytunodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor y Cyng. Mair Stephens fod yn **Bencampwr Tlodi Misglwyf** Sir Gaerfyrddin.



"Roedd yn anrhydedd pan ofynnodd y cyngor ieuencid i mi a fyddwn i'n dod yn Hyrwyddwr Tlodi Misglwyf gan fod hwn yn fater difrifol iawn sy'n digwydd yma ar stepen ein drws sy'n effeithio ar addysg, iechyd ac ansawdd bywyd yn gyffredinol. Mae'r ffigurau'n dangos fod 1 o bob 10 merch rhwng 14 a 21 oed sy'n byw yn y DU ddim yn gallu fforddio eitemau iechydol, sy'n frawychus. Pan fyddwn yn meddwl am dlodi, rydym yn meddwl am fwyd a thai, ond mae hyn yn bryder gwirioneddol, ac mae'r ffaith bod cyfnod misglwyf yn dal i fod yn bwnc tabŵ i lawer yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd i ofyn am help."

Mae blychau sy'n cynnwys cynhyrchion glanweithiol yn cael eu dosbarthu i bob un o'r **97 ysgol gynradd** a **12 ysgol uwchradd** yn y sir, yn ogystal â cholegau a grwpiau ieuencid.

Mae hyn wedi cael ei gynorthwyo gan **£56k** o grant hylendid benywaidd gan Lywodraeth Cymru.



Lansiwyd yr ymgyrch yng **Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin** yn Neuadd y Sir

Prynwyd cyfanswm o:



o gynhyrchion glanweithiol i lenwi'r blychau **tlodi misglwyf**.



Mae'r gwaith yn parhau ac rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r prosiect gwych hwn. Byddwn yn eich hysbysu o'r wybodaeth ddiweddaraf.

